# Adroddiad perfformiad amgylcheddol blynyddol ar gyfer Dŵr Cymru 2022

**Paratowyd gan y tîm Dulliau Rheoleiddio Dŵr, Tir, Bioamrywiaeth a'r Môr**

## Cyflwyniad

Ein diben yw sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn ein holl waith. Mae hyn yn golygu edrych ar ôl yr aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a chynnig dyfodol gwell i bawb.

Rydym yn monitro gweithgareddau cwmnïau dŵr er mwyn lleihau'r effaith y mae eu hasedau a'u gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd. Rydym yn gwneud hyn drwy wirio eu perfformiad amgylcheddol drwy gydol y flwyddyn mewn meysydd fel lleihau digwyddiadau llygredd, cydymffurfio â thrwyddedau, a chyflawni cynlluniau gwella'r amgylchedd.

Rydym yn rheoleiddio gweithrediadau Dŵr Cymru[1] yng Nghymru ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio gweithrediadau Dŵr Cymru yn Lloegr; felly, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cyfrannu at y broses asesu perfformiad a'r adroddiad hwn. Mae'r holl ddata a adroddir yn yr adroddiad hwn ar gyfer perfformiad Dŵr Cymru fel cwmni cyfan ac felly mae wedi'i gyfuno ar gyfer Cymru a Lloegr, oni nodir yn wahanol. Rydym hefyd yn asesu perfformiad Hafren Dyfrdwy, y gallwch ei weld ar ein gwefan.

## Cynnwys yr adroddiad

Mae'r adroddiad perfformiad amgylcheddol blynyddol hwn mewn dwy ran. Yn y rhan gyntaf, rydym yn asesu perfformiad Dŵr Cymru yn erbyn y saith metrig yn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol. Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol wedi'i safoni ledled Cymru a Lloegr. Mae hyn yn caniatáu i berfformiad y deg cwmni dŵr a charthffosiaeth mwyaf gael ei fonitro a'i asesu mewn ffordd gyson gan y rheoleiddwyr amgylcheddol. Yn yr ail ran, rydym yn monitro ac asesu perfformiad meysydd gwaith allweddol eraill na chwmpesir gan fetrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol. Nid yw'r adroddiad hwn yn cwmpasu pob agwedd ar reoleiddio cwmni dŵr.


- Rhan 1: Asesiad Perfformiad Amgylcheddol Dŵr Cymru — Tudalen 2-11
- Rhan 2: Perfformiad amgylcheddol ehangach Dŵr Cymru — Tudalen 11-21
- Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2023 — Tudalen 22
- Atodiadau — Tudalen 23-25


[1] Gwybodaeth Tŷ'r Cwmnïau: DWR CYMRU CYFYNGEDIG, rhif cwmni 02366777, cyfeiriad swyddfa gofrestredig: Linea, Fortran Road, Llaneirwg, Caerdydd, CF3 0EY.

# Rhan 1: Asesiad Perfformiad Amgylcheddol Dŵr Cymru 2022

Adolygir trothwyau metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (EPA) bob pum mlynedd er mwyn ysgogi gwelliannau'n barhaus. Yr adroddiad hwn ar berfformiad 2022 yw’r ail flwyddyn i ni asesu perfformiad yn erbyn metrigau Asesiad Perfformiad Amgylcheddol llymach ac ehangach o gyfnod pum mlynedd yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2021-25). Mae'r newidiadau i'r metrigau yn sicrhau ein bod yn parhau i bwyso ar y cwmnïau dŵr i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol a sicrhau bod ein disgwyliad i'r cwmnïau dŵr barhau i wthio am welliant yn glir.

Yn 2022, enillodd Dŵr Cymru statws gwyrdd ar draws tri metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, statws oren ar draws tri metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol a statws coch ar gyfer un metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol. Mae hyn yn golygu bod y cwmni wedi cyflawni sgôr cwmni cyffredinol o 2-seren, sy'n golygu bod y cwmni ‘angen gwneud gwelliannau’. Mae'n siomedig gweld bod perfformiad Dŵr Cymru wedi gostwng ymhellach o'u sgôr 4 seren ‘arweinwyr y diwydiant’ a gyflawnwyd yn 2020 a’u sgôr 3-seren ‘cwmni da’ yn 2021.

Dyma grynodeb o berfformiad Dŵr Cymru:

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Canlyniad 2022 | Cymhariaeth gyda pherfformiad y flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|
| Metrig 1: Cyfanswm digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth) | **25** (Oren) | Gostwng yn ôl i oren ar ôl cyflawni gwyrdd am ddwy flynedd |
| Metrig 2: Digwyddiadau llygredd difrifol (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr) | **5** (Coch) | Gostwng i goch ar ôl bod yn oren y llynedd ac yn wyrdd am 2 flynedd cyn hynny |
| Metrig 3: Hunan-gofnodi digwyddiadau llygredd (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr) | **69%** (Oren) | Aros yn oren |
| Metrig 4: Cydymffurfio â thrwydded ollwng (rhifol) | **98.5** (Oren) | Aros yn oren |
| Metrig 5: Defnyddio a gwaredu slwtsh yn foddhaol | **100%** (Gwyrdd) | Metrig wedi’i eithrio 2018-2020, metrig gwyrdd cysgodol yn 2021 |
| Metrig 6: Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau’r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol | **100%** (Gwyrdd) | Wedi aros yn wyrdd |
| Metrig 7: Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw | **100%** (Gwyrdd) | Wedi aros yn wyrdd |
| Sgôr seren gyffredinol y cwmni | **2 seren** | Gostwng i 2 seren ar ôl ennill 3 seren yn 2021 a 4 seren am y tro cyntaf yn 2020 |

Allwedd: Statws metrig

| | |
|---|---|
| Gwyrdd | Perfformiad yn well na'r targed |
| Oren | Perfformiad islaw'r targed |
| Coch | Perfformiad ymhell o dan y targed |

Allwedd: Sgôr seren gyffredinol y cwmni

| | |
|---|---|
| 4 seren | Cwmni sy'n arwain y diwydiant |
| 3 seren | Cwmni da |
| 2 seren | Cwmni sydd angen ei wella |
| 1 seren | Cwmni sy'n perfformio'n wael |

## Prif negeseuon ar berfformiad

Fel y crynhowyd ar dudalen 2, yn 2022 cyflawnodd Dŵr Cymru berfformiad yn sylweddol is na'r targed ar gyfer un metrig, perfformiad sy'n agos at neu'n is na'r targed ar dri metrig a pherfformiad yn well na'r targed ar dri metrig:

- Metrig 1: Gwelwyd dirywiad mewn perfformiad yng nghyfanswm y digwyddiadau llygredd carthfforsiaeth (categori 1-3), gan ostwng i oren. Cynyddodd nifer yr achosion o lygredd tua 7% o'i gymharu â 2021;
- Metrig 2: Roedd pum achos difrifol o lygredd carthffosiaeth yn golygu bod perfformiad ar gyfer y metrig hwn hefyd wedi dirywio, gan ddisgyn o oren i goch;
- Metrig 3: Gwelwyd hefyd ddirywiad ym mherfformiad hunan-gofnodi digwyddiadau llygredd. Arhosodd y metrig hwn yn oren, ond gwelwyd gostyngiad o 7% yn yr hunan-gofnodi o’i gymharu â 2021;
- Metrig 4: Gwelwyd rhywfaint o welliant o ran amodau trwyddedau ansawdd dŵr rhifol, ond arhosodd y metrig yn oren.
- Metrig 5: Roedd y metrig defnyddio a gwaredu slwtsh yn foddhaol yn 100% (gwyrdd) ar ôl cael ei eithrio fel metrig rhwng 2018-2020, a’i adrodd fel metrig cysgodol yn 2021;
- Metrig 6: Cyflawnwyd 100% o gynlluniau gwella Cynllun Rheoli Asedau Dŵr Cymru. Mae'r metrig hwn wedi aros yn wyrdd;
- Metrig 7: Cyflawnwyd sgôr o 100 yn y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw. Mae'r metrig hwn wedi aros yn wyrdd.

Mae'n hynod siomedig bod un metrig wedi gostwng i goch (digwyddiadau llygredd difrifol) a bod tri metrig yn oren (cyfanswm digwyddiadau, hunan-gofnodi am achosion o lygredd a chydymffurfiad trwyddedau rhyddhau rhifol). Mae’r dirywiad mewn perfformiad wedi bod mewn termau real ac ni ellir ei egluro drwy dynhau metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ar gyfer 2021.

Dros yr ychydig dudalennau nesaf, mae gwybodaeth fwy manwl ar saith metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol.

## Gwybodaeth gyfeirnodi ar yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol

Am fwy o fanylion ar fethodoleg yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol a thabl o berfformiad y flwyddyn flaenorol, cyfeiriwch at yr atodiadau hyn:

- Mae Atodiad 1 – tudalen 23 – yn esbonio'r fethodoleg rydym yn ei defnyddio i asesu perfformiad y cwmni;
- Mae Atodiad 2 – tudalen 24 – yn dangos sut mae Dŵr Cymru wedi perfformio yn erbyn metrigau’r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ers 2012.

# Digwyddiadau llygredd


Fel rheoleiddwyr, rydym yn ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau llygredd, gyda rhai ohonynt yn deillio o asedau a rhwydweithiau cwmnïau dŵr. Rydym yn adrodd ar faint o ddigwyddiadau y mae pob cwmni dŵr yn gyfrifol amdanynt. Diben hyn yw hybu gostyngiad parhaus yn nifer y digwyddiadau llygredd, gyda'r nod o leihau digwyddiadau i sero.

## Metrig 1 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cyfanswm digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)

Yn 2022, cafodd Dŵr Cymru 89 o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth Uchel-Isel (Categori 1-3); Cafodd 84 effaith amgylcheddol Isel (Categori 3) a chafodd pump effaith amgylcheddol o Arwyddocâd Uchel (Categori 2).

Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn normaleiddio nifer y digwyddiadau yn ôl cyfanswm hyd y carthffosydd mae'r cwmni'n gyfrifol amdanynt (36,249 km), felly yn 2022 cyflawnodd Dŵr Cymru statws oren ar gyfer y metrig hwn:

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2022 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)** | Digwyddiadau Cat 1-3 fesul 10,000 km o garthffosydd | Faint o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth a ddigwyddodd, o fewn Categori 1-3, yn ôl hyd y carthffosydd | 25 (Oren) |




| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| High - major (Cat 1) | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| High - significant (Cat 2) | 2 | 6 | 2 | 4 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 1 | 2 | 5 |
| Low (Cat 3) | 236 | 193 | 120 | 104 | 107 | 105 | 101 | 98 | 94 | 76 | 81 | 84 |

Fel y dengys y graff uchod, gwelwyd gostyngiad cyson yn nifer y digwyddiadau llygredd rhwng 2011 a 2014. Wedyn, rhwng 2014 a 2019, roedd dim ond ychydig iawn o ostyngiad o 14 digwyddiad dros chwe blynedd. Yn 2020 cafwyd gostyngiad sylweddol o 17 digwyddiad, i ennill statws gwyrdd am y tro cyntaf, a pharhau i ennill statws gwyrdd yn 2021. Yn 2022 bu cynnydd o wyth digwyddiad (o 83 yn 2021 i 89 yn 2022). Mae'n siomedig nad yw Dŵr Cymru wedi cynnal ei welliant yn y metrig hwn ers 2020.

Disgwyliwn i Dŵr Cymru ganolbwyntio ymdrechion ar leihau nifer y digwyddiadau i gyflawni dim digwyddiadau. Disgwyliwn i Dŵr Cymru ddefnyddio arferion gorau o bob rhan o'r sector i leihau llygredd ac arwain y ffordd yn barhaus.

## Metrig 2 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Digwyddiadau llygredd difrifol (Categori 1 a 2 o asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)

Mae'r metrig hwn yn edrych ar gyfanswm nifer y digwyddiadau llygredd difrifol. Fel y dangosir yn y graff uchod, roedd pum digwyddiad difrifol yn 2022 a oedd ag effaith amgylcheddol Uchel (Categori 2). Ers 2021, mae digwyddiadau dŵr glân difrifol (o asedau cyflenwi dŵr) wedi'u cynnwys yn y mesur, ond roedd pob digwyddiad ar gyfer 2022 yn gysylltiedig â charthffosiaeth.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2022 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Digwyddiadau llygredd difrifol (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)** | Cyfanswm y digwyddiadau (Categori 1-2) | Faint o achosion difrifol o lygredd carthffosiaeth a dŵr glân a ddigwyddodd, o Gategori 1-2, cyfanswm | 5 (Coch) |

Mae'n siomedig bod Dŵr Cymru wedi cael pum achos difrifol o lygredd carthffosiaeth yn 2022 ar ôl cael tri achos yn 2021. Mae hyn yn dilyn dwy flynedd o berfformiad da yn 2020 a 2021. Rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru fod ag awydd i wella yn y maes hwn ac i weithio'n gyflym tuag at leihau nifer y digwyddiadau difrifol o asedau carthffosiaeth neu gyflenwad dŵr i sero, gan ddefnyddio arferion gorau, megis adolygiadau ar ôl digwyddiadau, i sicrhau y gweithredir unrhyw welliannau yn brydlon yn dilyn unrhyw ddigwyddiadau difrifol.

# Hunan-gofnodi digwyddiadau

Fel rheoleiddiwr, rydym am i gwmnïau dŵr hunan-gofnodi gymaint o'r digwyddiadau llygredd â phosibl. Bydd hyn yn golygu y gallwn fod yn fwy hyderus fod y cwmni dŵr yn:

- deall ei asedau a'i rwydweithiau'n well;
- edrych yn barhaus am ffyrdd o wella sut mae'n rhagweld digwyddiadau llygredd, gan gynnwys defnyddio'i ddata telemetreg ei hun i wella lefelau hunan-gofnodi;
- defnyddio ei ddata i nodi mannau peryglus a thargedu lleoliadau risg uchel a mathau penodol o asedau;
- rhoi sylw ac ymateb i ddigwyddiadau'n gyflym er mwyn stopio unrhyw effaith cyn gynted â phosibl.

## Metrig 3 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Hunangofnodi digwyddiadau llygredd (Categori 1-3 o asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)

Fel y dengys y graff isod, mae perfformiad Dŵr Cymru yn y metrig hwn yn parhau i ostwng. Mewn adroddiadau blaenorol, rydym wedi annog Dŵr Cymru i anelu at hunan-gofnodi am o leiaf 80% o'i ddigwyddiadau llygredd. Yn 2022, methodd Dŵr Cymru â chyrraedd 80%, gan gyflawni 69%:


Cyflawnodd y cwmni ei gyfradd uchaf o hunan-gofnodi yn 2020 (80%), ond yn 2021 gostyngodd y gyfradd i 76% (oren). Yn 2022 gostyngodd ymhellach i 69%, gan aros yn oren, ond yn agos at y trothwy coch o 65%, sy'n peri pryder.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2022 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Hunan-gofnodi digwyddiadau llygredd (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)** | % | Canran y digwyddiadau llygredd y gwnaeth y cwmni eu hunan-gofnodi | 69% yn gyffredinol 46% yn Weithfeydd Trin Carthion a Gorsafoedd Pwmpio (Oren) |

O dan fetrigau llymach yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (90), dim ond os byddant yn cyflawni 80% yn gyffredinol, ac yn hunan-gofnodi 90% o bob digwyddiad mewn Gorsafoedd Pwmpio a Gweithfeydd Trin Carthion y gall Dŵr Cymru gyflawni statws gwyrdd.

Mae'n siomedig bod perfformiad Dŵr Cymru yn y metrig hwn wedi dirywio ymhellach eleni, yn enwedig gan mai dim ond 46% o ddigwyddiadau mewn Gorsafoedd Pwmpio a Gweithfeydd Trin Carthion a gafodd eu hunan-gofnodi. Byddem yn disgwyl i'r mathau hyn o asedau fod â thelemetreg wedi'u gosod er mwyn caniatáu hysbysu cynnar a hunan-gofnodi. Mae angen i'r cwmni wneud gwelliannau sylweddol yn y ddau fath yma o asedau, er mwyn gallu cyflawni 90% yn 2023 a chyrraedd statws gwyrdd unwaith eto.

Rydym yn annog Dŵr Cymru i ystyried mentrau eraill a ddefnyddir ar draws y diwydiant i wrthdroi eu perfformiad sy'n dirywio o ran hunan-gofnodi.




# Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr


Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn dyroddi trwyddedau ar gyfer gollyngiadau dŵr, sy'n cynnwys gollyngiadau wedi'u trin o weithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr cwmnïau dŵr. Mae'r trwyddedau yn gofyn i'r gollyngiadau fodloni meini prawf penodol er mwyn sicrhau nad yw'r amgylchedd dŵr yn dirywio. Mae cwmnïau dŵr yn hunanfonitro eu gollyngiadau ac mae'n ofynnol iddynt ddarparu data ar ein cyfer yr ydym yn ei asesu am gydymffurfedd. Rydym yn disgwyl cydymffurfedd â holl amodau'r drwydded.

## Metrig 4: yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cydymffurfio â'r drwydded ollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr)

Yn 2022, cyflawnodd Dŵr Cymru statws oren ar gyfer y metrig hwn, gan gydymffurfio 98.5%  â'r terfynau ansawdd dŵr ar ei drwyddedau rhifyddol ar gyfer gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr, sy'n debyg iawn i'r perfformiad yn 2021 (98.3%). Yn 2022, o'r safleoedd mae Dŵr Cymru yn gweithredu, roedd chwe gweithfa trin carthion nad oedd yn cydymffurfio allan o 562 a thri gweithfa trin dŵr nad oedd yn cydymffurfio allan o 34.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2022 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr)** | % | Canran y cydymffurfedd ymhlith gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr â therfynau ansawdd dŵr ar eu gollyngiadau | 98.5 (Oren) |

Fel y dengys y graff isod, roedd perfformiad Dŵr Cymru ar y metrig hwn wedi amrywio ers sawl blwyddyn, cyn i'r cwmni gyflawni ei berfformiad gorau yn 2020. Mae'n siomedig nad yw Dŵr Cymru wedi gallu gwrthdroi'r dirywiad yn y metrig hwn.




| | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Number of failing WTW | 9 | 10 | 3 | 10 | 10 | 5 | 0 | 3 | 3 |
| Number of failing STW | 5 | 8 | 3 | 10 | 2 | 6 | 2 | 7 | 6 |
| Overall % discharge compliance | 97.8 | 97.1 | 99.0 | 96.7 | 98.0 | 98.2 | 99.7 | 98.3 | 98.5 |

Disgwyliwn i Dŵr Cymru chwilio am gyfleoedd i fonitro a nodi gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr a allai fod yn gostwng mewn perfformiad yn ystod y flwyddyn, gyda'r nod o sicrhau cydymffurfedd o 100% â'r metrig hwn. Er nad yw Dŵr Cymru wedi cyflawni 100% ar unrhyw adeg, mae cwmnïau eraill yn y sector wedi cyflawni'r targed hwn.

Mae cydymffurfiad cyflwr disgrifiadol yn gysylltiedig yn agos â chydymffurfio ag amodau rhifol, sydd wedi gwella yn 2022 ar ôl dwy flynedd o berfformiad gwael yn 2020 a 2021. Mae'n bwysig bod Dŵr Cymru yn cydymffurfio â'r holl amodau yn ei drwyddedau, felly mae mwy o waith i wneud yma. Gweler tudalennau 9-10 am ragor o fanylion ynghylch cydymffurfio ag amodau disgrifiadol.

# Metrig 5 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Metrig defnyddio a gwaredu slwtsh yn foddhaol

Cafodd y metrig defnyddio/gwaredu slwtsh yn foddhaol ei atal rhwng 2018 a 2020 wrth i ni adolygu sut rydym yn asesu ac yn adrodd ar berfformiad yn gyson ar draws y cwmnïau dŵr ar y gweithgaredd hwn. Yn yr adroddiad perfformiad blynyddol ar gyfer 2020, gwnaethom gynnwys naratif ar berfformiad y sector o ran defnyddio a gwaredu slwtsh yn foddhaol. Ar gyfer 2021 roedd y metrig yn cael ei ddefnyddio fel metrig cysgodol.

Rydym wedi adfer y metrig defnyddio/gwaredu slwtsh yn foddhaol fel metrig adrodd llawn ar gyfer blwyddyn adrodd 2022.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2022 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Metrig defnyddio a gwaredu slwtsh yn foddhaol** | % | P'un a yw cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â storio, ailgylchu a/neu waredu slwtsh carthion yn cael ei sicrhau | 100 (Gwyrdd) |

Cyflawnodd Dŵr Cymru 100% a statws gwyrdd ar gyfer y metrig hwn. Roedden nhw'n cyflawni gwyrdd bob blwyddyn cyn i'r metrig gael ei atal. Rydym yn disgwyl iddyn nhw gynnal y perfformiad ar 100%.

# Metrig 6 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol

Mae'r metrig hwn yn ystyried sut mae Dŵr Cymru wedi cyflawni yn erbyn ei Gynllun Rheoli Asedau pum mlynedd rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023. Mae'n ystyried canran y cynlluniau a gyflawnwyd o'u cymharu â'r cynlluniau a gynlluniwyd rhwng 2020 a 2025.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2022 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol** | **% y gwaith cyflawni arfaethedig** | P'un a yw Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yn cael ei gyflawni fel y bwriadwyd ai peidio | 100 (Gwyrdd) |

Yn 2022/23 fe wnaeth Dŵr Cymru gyflwyno 19 cynllun fel y cynlluniwyd - pedwar cynllun gwella, 13 cynllun ymchwilio a dau gynllun monitro. Cyfanswm cronnol y cynlluniau AMP NEP a gwblhawyd hyd yma yw 265. Bydd y gwelliannau a gyflawnwyd gan y rhaglen yn golygu bod asedau'n cyflawni safonau uwch ac yn sicrhau gwelliannau ansawdd dŵr. Rydym yn disgwyl Dŵr Cymru i gynnal statws gwyrdd ar gyfer 2023.

# Metrig 7 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw

Mae metrig y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw (SDBI) yn mesur sut mae'r cydbwysedd gwirioneddol rhwng y cyflenwad a'r galw wedi perfformio o'i gymharu â'r hyn a nodir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr cwmni dŵr. Disgwyliwn i gwmnïau gael sgôr o 100. Yn 2022, roedd gan Dŵr Cymru sgôr SDBI o 100, felly mae'r metrig EPA yn wyrdd:

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2022 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw** | Sgôr y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw, uchafswm 100 | Sut mae'r cydbwysedd gwirioneddol rhwng y cyflenwad a'r galw wedi perfformio o'i gymharu â'r hyn a nodir yn ei Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr | 100 (Gwyrdd) |

# Metrig - wrthi'n cael ei ddatblygu: cydymffurfio ag amodau disgrifiadol trwyddedau ar ansawdd dŵr

Yn dilyn ymgynghoriad, rydym yn gweithio i gyflwyno metrig perfformiad ychwanegol ar gyfer cwmnïau yng Nghymru yn unig – cydymffurfedd amodau trwydded disgrifiadol mewn gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr. Mae amodau disgrifiadol yn ymwneud ag agweddau nad ydynt yn rhifol fel cynnal a chadw, rheoli ac adrodd. Gyda pherfformiad amodau disgrifiadol yn amlwg yn is nag ar gyfer perfformiad amodau rhifol, roeddem am gael mwy o waith craffu ar amodau disgrifiadol.

Mae'r metrig hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd fel y gallwn sicrhau ei fod yn gadarn ac yn cael ei adrodd yn gywir. Byddwn yn parhau i adrodd ar berfformiad Dŵr Cymru yn erbyn y 'metrig – wrthi'n cael ei ddatblygu' yn flynyddol. Disgwyliwn weld perfformiad yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn. Ein nod yw cyflwyno trothwyau perfformiad coch/oren/gwyrdd o ddechrau cyfnod adrodd pum mlynedd nesaf yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2026-2030).

| | Canran y safleoedd sy'n cydymffurfio â'u hamodau disgrifiadol | Nifer y safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio |
|---|---|---|
| **2020** | 63% | 317 |
| **2021** | 87% | 112 |
| **2022** | 91% | 74 |

Fel mae'r tabl yn ei ddangos, gwelwyd gwelliant amlwg mewn cydymffurfiaeth cyflyrau disgrifiadol mewn Gweithfeydd Trin Carthion a Gweithfeydd Trin Dŵr ers y perfformiad gwael yn 2020, gan gynyddu o 63% o'r safleoedd i 91% yn 2022. Yn 2022, nid oedd 74 o safleoedd allan o 854 o Weithfeydd Trin Carthion a Gweithfeydd Trin Dŵr yn cydymffurfio (safleoedd â thrwyddedau rhifol a disgrifiadol). Er bod hyn yn welliant o'r ddwy flynedd ddiwethaf, mae'n is na'n disgwyliad o gydymffurfio 100%, felly rydym yn disgwyl gweld gwelliant parhaus yn 2023.

Roedd diffyg cydymffurfio ymhlith y rhan fwyaf o'r 74 o safleoedd yn sgil achosion o dorri amodau mewn perthynas â gwaith monitro, adrodd a hysbysu ar gyfer rhaglenni hunanfonitro gweithredwyr, dŵr gwastraff trefol a monitro UV a nodwyd gennym yn ystod ein hasesiad cydymffurfedd. Roedd mwyafrif y diffyg cydymffurfio wedi'i gategoreiddio dan gategori 3 neu 4[2], gyda 2 ddiffyg cydymffurfiaeth yng nghategori 2.

Ar gyfer cydymffurfedd ag amodau disgrifiadol yn gyffredinol, rydym yn disgwyl i'r cwmni wneud y canlynol:

- cymryd camau gweithredu cyflym a chadarnhaol i sicrhau bod achos sylfaenol yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a welwyd yn 2022 yn cael ei gywiro cyn gynted â phosibl;
- gwella eu perfformiad cyflwr disgrifiadol cyffredinol flwyddyn ar ôl blwyddyn gan anelu at gydymffurfio 100%;
- canolbwyntio ar roi diwedd ar yr holl achosion o ddiffyg cydymffurfio ag amodau disgrifiadol Categori 1 a 2, gan fod gan y rhain y potensial ar gyfer effaith amgylcheddol ddifrifol.

**Asesu cydymffurfedd â thrwyddedau gorlif storm**

Drwy ein gwaith ymateb arferol i ddigwyddiadau a gwaith asesu cydymffurfedd a gynhaliwyd yn 2022, canfuom fod 170 o orlifoedd storm a ganiateir (gorsafoedd pwmpio carthion, gorlifoedd carthffosydd cyfun a gollyngiadau storm o weithfeydd trin carthion) yn peidio â chydymffurfio am amrywiaeth o resymau. Disgrifir y tri math mwyaf cyffredin o ddiffyg cydymffurfio isod.

- Nid oedd 118 o safleoedd yn cydymffurfio oherwydd methu â chyflenwi gwybodaeth sy'n ofynnol gan yr amodau gwella yn eu trwyddedau erbyn y dyddiad a bennwyd. Cofnodwyd pum safle gyda diffyg cydymffurfiaeth categori 3, gyda'r mwyafrif (113) wedi'u cofnodi fel categori 4.
- Roedd 21 safle wedi methu â chydymffurfio o ganlyniad i fethu â chyflwyno eu data EDM 2021 yn ôl y gofyn; rhoddwyd Rhybudd i bob un, ac mae'r data coll bellach wedi cael ei gyflwyno.
- Roedd tystiolaeth bod 16 safle wedi methu â chydymffurfio o ganlyniad i ollyngiadau mewn amodau heb fod yn stormydd neu amodau brys, oherwydd materion megis rhwystrau mewn carthffosydd a gwaith cynnal a chadw. Roedd gan un safle ddiffyg cydymffurfio categori 2, roedd y gweddill yn gategori 3; Rhoddwyd Rhybudd i'r mwyafrif.

---

[2] Rydym ni'n defnyddio categoriïau diffyg cydymffurfio i sgorio torri amodau caniatâd neu drwydded. Mae'r rhain ar raddfa o 1-4:
· Categori 1 – Sylweddol: potensial i achosi effaith sylweddol, difrifol, parhaus a/neu eang ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo;
· Categori 2 – Arwyddocaol: potensial o achosi effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo;
· Categori 3 – Bach: potensial o gael ychydig iawn o effaith ar yr amgylchedd, pobl, a/neu eiddo;
· Categori 4 – Dim effaith: diffyg cydymffurfiaeth ar safle sy'n cael ei reoleiddio na ellir rhagweld unrhyw effaith ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo.


# Rhan 2: Perfformiad amgylcheddol ehangach Dŵr Cymru

Mae saith metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn is-set o berfformiad amgylcheddol. Ceir meysydd eraill o waith monitro, adrodd a rheoleiddio rydym yn eu gwneud yn ymwneud â gweithgareddau Dŵr Cymru, y mae rhai ohonynt yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn. Mae rhai agweddau'n gysylltiedig yn agos â metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, megis digwyddiadau llygredd a chydymffurfedd, ac mae gan rai gwmpas ehangach.

## Digwyddiadau llygredd (asedau cyflenwad dŵr)

Yn ogystal â digwyddiadau carthffosiaeth, rydym hefyd yn monitro nifer y digwyddiadau o asedau sy'n gysylltiedig â'r cyflenwad dŵr yfed. Er nad ydynt yn cael eu cynnwys ym metrig 1 digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth) yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, maent yn agwedd bwysig ar berfformiad amgylcheddol. Mae'r digwyddiadau hyn yn aml yn cynnwys gollwng dŵr yfed sydd wedi'i drin yn rhannol neu'n llwyr o asedau cyflenwad dŵr, megis gweithfeydd trin dŵr a systemau dosbarthu dŵr (prif gyflenwad dŵr). Mae gan y gollyngiadau y potensial i gynnwys cemegau fel clorin, alwminiwm neu haearn; gallant yn aml ollwng ar gyflymder uchel, felly gallant achosi digwyddiadau llygredd mewn perthynas â gwaddodion yn y cwrs dŵr.

Yn 2022 roedd 45 achos o lygru dŵr glân - roedd pob digwyddiad yn Isel (Categori 3), heb unrhyw ddigwyddiadau difrifol (Categori 1-2):




| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| High - major (Cat 1) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| High - significant (Cat 2) | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 2 | 1 | 0 |
| Low (Cat 3) | 6 | 6 | 2 | 4 | 0 | 6 | 11 | 20 | 26 | 63 | 78 | 45 |

Gwelwyd gwelliant sylweddol yn y lefelau perfformiad cyffredinol ar gyfer digwyddiadau'n ymwneud â chyflenwad dŵr yn 2022, yn dilyn cynnydd annerbyniol yn nifer yr achosion yn 2020-21. Rydym yn croesawu cynnwys digwyddiadau difrifol o asedau cyflenwad dŵr ym metrig digwyddiadau llygredd difrifol yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol o 2 er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar y maes perfformiad hwn, ac mae'n ymddangos bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol.

Rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru leihau nifer yr holl ddigwyddiadau (carthffosiaeth a chyflenwad dŵr) i sero, felly rydym am weld gostyngiad parhaus mewn digwyddiadau o asedau cyflenwi dŵr.

## Cydymffurfio ag amodau llif mewn gweithfeydd trin carthion

Darparodd Dŵr Cymru ddata Llif Tywydd Sych yn unol â gofynion ei drwydded. Aeth 22 o weithfeydd trin carthion y tu hwnt i'w cyfyngiadau Llif Tywydd Sych trwyddedig. Roedd 13 o'r rhain weithfeydd Trin Carthion gydag adnoddau monitro llif MCERTS newydd wedi'u gosod. Roedd yna hefyd 4 safle gwaith trin carthion yn Lloegr lle roedd Llif Tywydd Sych mesuredig Q90 yn fwy na'r terfyn llif a ganiateir yn ystod 2021. Yn ogystal, penderfynwyd bod 4 safle MCERTs am y blwyddyn cyntaf wedi mynd y tu hwnt i'w hamodau Llif Tywydd Sych gan nad oedd yr "Environment Agency" yn gallu llwytho'r data ar gyfer y safleoedd hyn. O ganlyniad i fynd y tu hwnt i'r cyfyngiadau, fe wnaeth y safleoedd ollwng mwy o garthion wedi'u trin nag a ganiateir. Mae'n ofynnol bod Dŵr Cymru yn cynnal ymchwiliadau ac adrodd am achos y gormodiant i ni a, lle bo'n briodol, cwblhau camau adferol o fewn amserlen gytunedig.

Adroddwyd bod 15 o weithfeydd trin carthion yng Nghymru a 7 yn Lloegr wedi profi problemau data yn 2021 ac mae'r cwmni'n gweithio i'w datrys. Rydym wedi gofyn i'r wybodaeth hon gael ei hailgyflwyno.

Mae Dŵr Cymru hefyd yn ymchwilio i 23 safle yng Nghymru o ganlyniad i gwestiynau dros derfynau llif trin llawn a ganiateir yn eu trwyddedau, sy'n golygu na allent fod yn trin y llif sy'n ofynnol gan eu trwyddedau.

Mae Dŵr Cymru wedi gwneud cynnydd gyda'i system rheoli mewnol ar gyfer ardystiad MCERTS, sef system sy'n archwilio ac yn ardystio addasrwydd a chywirdeb ei offer monitro llif yn annibynnol. Roedd ei holl safleoedd yng Nghymru a Lleogr yn cydymffurfio â gofynion ailardystio MCERTS yn 2021.

Ar ddiwedd 2021, cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat y byddent yn ymchwilio i achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio ag amodau trwydded llif trin llawn gan weithfeydd trin carthion yn Lloegr. Mae'r ymchwiliadau'n dadansoddi gwybodaeth a gyflwynwyd gan gwmnïau dŵr i reoleiddwyr sy'n amlygu achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio â thrwyddedau.

Yng Nghymru, nid ydym yn bwriadu cynnal ymchwiliad tebyg ar hyn o bryd, gan fod gennym ymateb cydymffurfio eisoes ar waith. Mae Dŵr Cymru wedi bod yn rhannu gwybodaeth debyg gyda ni ers 2014. Nododd y gwaith hwn safleoedd yr oedd angen i Dŵr Cymru ymchwilio iddynt, a edrychodd wedyn ar achos/achosion diffyg cydymffurfio. Rydym

wedi gweithio gyda Dŵr Cymru i sicrhau bod y safleoedd yn dychwelyd i gydymffurfio â'u trwydded cyn gynted â phosibl.

Byddwn yn parhau i fonitro'r ymchwiliadau gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat yn Lloegr ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r ddau sefydliad i ddeall canlyniadau'r ymchwiliad. Byddwn yn adolygu ein dull rheoleiddio presennol yng Nghymru, os bydd angen.

# Gorlifoedd storm a ganiateir – Cymru yn unig

Mae Dŵr Cymru wedi gosod monitorau hyd digwyddiad (EDM), i fonitro nifer a hyd gollyngiadau, ar y rhan fwyaf o'u gorlifoedd storm a ganiateir yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd EDM yn cael eu gosod ar yr asedau canlynol:

- gorlifoedd storm ar y rhwydwaith carthffosydd (gorlifoedd carthffosydd cyfun)
- gorlifoedd storm o orsafoedd pwmpio;
- gorlifoedd storm mewn gweithfeydd trin carthion.

Yn yr adran hon, rydym yn rhannu data ar orlifoedd storm a ganiateir yn unig. Ar gyfer gorlifoedd storm sy'n gweithredu heb drwydded ar hyn o bryd, mae gennym raglen waith arwyddocaol ar y gweill i ddod â nhw o fewn ein fframwaith rheoleiddio, pan fo hynny'n briodol.

Mae rhagor o wybodaeth am orlifoedd storm ar gael ar ein gwefan.

Yn 2022, profodd Cymru fis Chwefror eithriadol o wlyb (yr ail Chwefror gwlypaf ers dros 100 mlynedd), ac yna gwanwyn sych hir a datganiad o sychder am lawer o'r haf a dechrau'r hydref. Yn ystod Mawrth – Awst (gyda'i gilydd) cafwyd 57% o'r glawiad disgwyliedig am yr un cyfnod cyfwerth â chwe mis. Gan roi hyn yn ei gyd-destun, roedd y cyfnod hwn o chwe mis yn drydydd sychaf erioed ers dros 100 mlynedd. Roedd y glawiad arferol neu uwch na'r arfer yn nodweddu misoedd diwedd yr hydref a'r gaeaf wedyn. Gwelodd y flwyddyn gyfan 86% o'r glawiad cyfartalog blynyddol disgwyliedig.

Mae gan gyfnodau anarferol o wlyb y potensial i arwain at fwy o ollyngiadau am gyfnodau hwy, tra bod tywydd sych yn cael effaith groes. Rydym yn gweithio ar ddull cadarn o nodi pryd mae gollyngiadau yn digwydd mewn tywydd sych a fydd yn ein galluogi i asesu perfformiad gorlif stormydd yn well.

# Data EDM yr ydym yn adrodd arnynt

Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio data cryno EDM 2022 a gyflwynwyd gan y cwmni dŵr yn eu datganiad rheoleiddio blynyddol i CNC. Nid yw data cryno EDM o orlifoedd storm a ganiateir yn Lloegr yn cael ei gyflwyno yn yr adroddiad hwn.

Er mwyn gwella tryloywder, o ddata 2022 ymlaen fe wnaethom ofyn i gwmnïau dŵr ddarparu mwy o wybodaeth yn eu cyflwyniadau data EDM. Er enghraifft, rydym bellach yn mynnu bod y math o ased yn cael ei nodi; gallai hyn fod yn orlif storm ar y rhwydwaith carthffosydd, mewn gwaith trin dŵr gwastraff neu mewn gorsaf bwmpio.

Rydym yn bwriadu darparu mwy o fanylion am ddata EDM sy'n cyd-fynd â'r gwaith yn y Tasglu Ansawdd Dŵr Afonydd Gwell.

Rhestrodd Dŵr Cymru 1,946 o drwyddedau yn eu ffurflen yn 2022. Rydym wedi parhau i ddyroddi amrywiadau EDM i drwyddedau gorlif storm, gyda mwy yn cael eu dyroddi yn ystod 2022 a 2023 hyd yma. Mae gan y nifer fach sy'n weddill gynlluniau ar waith i osod EDM erbyn diwedd 2023.

Defnyddiwyd y data a dderbyniwyd gan y cwmni dŵr i gynhyrchu'r graffiau a'r canrannau isod. Byddwn yn parhau i weithio i wella cyflawnder a chywirdeb data ar gyfer y data gorlif stormydd.

**Cyflawnder data**
Yn 2022, roedd 283 (15%) o ddulliau monitro hyd digwyddiadau (EDM) y cwmni dŵr ar waith am lai na 90% o'r flwyddyn, sy'n is na safon y diwydiant y cytunwyd arni. Disgwyliwn i'r cwmni dŵr wella gweithrediad EDM fel bod pob EDM yn gweithredu am o leiaf 90% o'r amser cyn gynted â phosibl.

## Nifer y gollyngiadau

Mae data EDM 2022 ar nifer y gollyngiadau (gan ddefnyddio'r fethodoleg cyfrif bloc[3]) o 1,946 o orlifoedd storm Dŵr Cymru a ganiateir yn dweud y canlynol wrthym:

- 4% (70) heb ddarparu data;
- Cafodd 12% (242) o orlifoedd storm 0 gollyngiad;
- Cafodd 21% (405) ollyngiadau rhwng 1 a 9 gwaith.
- Cafodd 26% (498) ollyngiadau rhwng 10 a 39 gwaith.
- Cafodd 27% (526) ollyngiadau rhwng 40 a 99 gwaith.
- Cafodd 10% (200) ollyngiadau rhwng 100 a 299 gwaith.
- Cafodd gollyngiadau mewn llai nag 1% (5) fwy na 300 o weithiau.


Mae'r graff isod yn dangos y data hwn.

[3] Y fethodoleg cyfrif bloc a ddefnyddir i gyfrif gollyngiadau o orlifoedd storm yw'r dull cyfrif 12/24:

1. Start counting when the first discharge occurs.
2. Any discharge (or discharges) in the first 12-hour block are counted as one spill.
3. Any discharge (or discharges) in the next, and subsequent 24-hour blocks, are each counted as one additional spill per block.
4. Continue counting until there's a 24-hour block with no discharge.

For the next discharge after the 24-hour block with no discharge, you begin again with the 12-hour and 24-hour block spill counting sequence.

NRW and the Environment Agency use this same approach for consistency across water companies.





## Hyd y gollyngiadau

Mae data EDM 2022 ar hyd y gollyngiadau o 1,946 o orlifoedd storm Dŵr Cymru a ganiateir yn dweud y canlynol wrthym:

- 4% (70) heb ddarparu data;
- Cafodd 12% (242) o orlifoedd storm 0 awr o ollyngiadau;
- Cafodd 36% (696) ollyngiadau a barodd am fwy na 0 awr ond llai na 50 awr;
- Cafodd 23% (438) ollyngiadau a barodd am o leiaf 50 awr ond llai na 250 awr;
- Cafodd 9% (181) ollyngiadau a barodd am o leiaf 250 awr ond llai na 500 awr;
- Cafodd 8% (158) ollyngiadau a barodd am o leiaf 500 awr ond llai na 1,000 awr;
- Cafodd 8% (159) ollyngiadau a barodd am o leiaf 1,000 awr ond llai na 5,000 awr;
- Roedd llai nag 1% (2) wedi gollwng am fwy na 5,000 awr.

Mae'r graff isod yn dangos y data hwn.




## Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell

Ar 5 Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell gynlluniau gweithredu ochr yn ochr â'i fap trywydd ar gyfer gorlifoedd storm ar ein gwefan. Mae'r rhain yn nodi amcanion a chanlyniadau mesuradwy ar gyfer cyflawni gwelliannau i'r gwaith o reoli a rheoleiddio gorlifoedd yng Nghymru o safbwynt amgylcheddol. Rydym yn bartner ar y tasglu hwn ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Ofwat, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy, sy'n cael cyngor annibynnol gan Afonydd Cymru a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Fel y mae'r cynlluniau gweithredu ar y map trywydd yn nodi, rydym yn datblygu ein fframwaith rheoleiddio i sicrhau bod cwmnïau dŵr yn mynd i'r afael ag effaith amgylcheddol gollyngiadau o orlifoedd storm.

## Adrodd yn y dyfodol

Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull rheoleiddio o ran sut rydym yn gwirio, asesu a defnyddio'r data EDM y mae cwmnïau dŵr yn ei gyflwyno i ni. Mae hyn yn cynnwys datblygu ffordd gadarn o nodi gorlifoedd stormydd sy'n methu â chydymffurfio ag amodau eu trwydded.

Byddwn yn parhau i ddatblygu sut rydym yn monitro ac yn adrodd ar berfformiad ar orlifoedd storm yn unol â'n camau gweithredu a nodir yn y cynlluniau gweithredu ar gyfer gorlifoedd storm, gan weithio'n agos gyda'r Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell.

Rydym hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith i'n galluogi i rannu data cryno EDM o'r datganiad rheoleiddio ar ein cofrestr gyhoeddus.

## Cydymffurfio gyda thrwyddedau adnoddau dŵr

Yn 2022, fe wnaethom ni gynnal saith asesiad cydymffurfio o chwe thrwydded adnoddau dŵr gwahanol Dŵr Cymru. Pennwyd bod pum asesiad yn cydymffurfio. Fodd bynnag, gwelsom achosion o dorri amod y drwydded yn ystod dau asesiad cydymffurfio ar yr un safle, lle collwyd isafswm llif digolledu statudol ym mis Mehefin a mis Medi. Fe wnaethom ni gofnodi toriad categori 3 a 4 yn y drefn honno ar gyfer y toriadau hyn, ac fe wnaethom ni gyhoeddi Rhybudd i'r cwmni.

## Cynlluniau sychder a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr

Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd i gynnal cyflenwadau dŵr yn eu hardal, heb niweidio'r amgylchedd nac effeithio ar anghenion defnyddwyr dŵr eraill. Mae gofyniad statudol ar gwmnïau dŵr i baratoi, cynnal a chyhoeddi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau sychder. Cyhoeddwyd y Cynllun drafft diweddaraf ac ymgynghorwyd arno yn 2022 a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn ystod hydref 2023. Cyhoeddwyd y Cynllun Sychder diweddaraf ym mis Mawrth 2021. Mae'r cynlluniau yn cael eu cyhoeddi bob pum mlynedd. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chynlluniau rheoli adnoddau dŵr Dŵr Cymru, gweler ei wefan:

- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2024 (drafft)
- Cynllun Sychder 2020-2025

Edrychwch hefyd ar ein tudalennau gwe am ragor o wybodaeth ar y pynciau hyn:

- Cynllunio rheoli adnoddau dŵr: https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/water/water-resource-management-planning/?lang=cy
- Sychder
- Canllawiau cynllun sychder

## Gollyngiadau a defnydd o ddŵr

Mae cwmnïau dŵr yn cyflwyno amrywiaeth eang o ddata i ni ac Ofwat, sy'n cynnwys cyfraddau gollyngiadau a defnydd dŵr. Cyhoeddodd Dŵr Cymru yn ddiweddar ei fod wedi profi problemau gyda'u data gollyngiadau a data defnydd y pen ar gyfer 2020-2022. Mae Ofwat wedi lansio ymchwiliad gorfodi i'r mater ac rydym yn trafod gyda Dŵr Cymru ac Ofwat ar y mater hwn.

Dylai'r cyfraddau gollyngiadau diwygiedig a'r wybodaeth am ddefnydd dŵr ar gyfer 2022/23 fod ar gael yn www.discoverwater.co.uk cyn bo hir.

## Profiad o sychder yn 2022

Yn ystod 2022, datganwyd sychder ar draws pob rhan o Gymru. O ran cyflenwad dŵr cyhoeddus - datganodd Dŵr Cymru sychder yn un o'i barthau adnoddau dŵr a gweithredwyd cyfyngiadau defnydd dŵr (gwaharddiadau defnydd dros dro) yn Sir Benfro a

rhannau o Sir Gaerfyrddin am y tro cyntaf ers degawdau. Mewn rhannau eraill o Gymru, fe wnaethant alw ar bobl i arbed dŵr, gwella rheolaeth gollyngiadau a chymryd camau gweithredol i helpu i reoli cyflenwadau dŵr ac osgoi mesurau sychder eraill.

Mae Dŵr Cymru wedi asesu gwersi i ddysgu o ganlyniad i sychder 2022, sydd wedi nodi cyfres o argymhellion i wella paratoadau ar gyfer sychder, rheolaeth ac ymateb i sychder. Mae'r profiad o sychder yn ystod 2022 wedi cael ei ystyried yn eu Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr diweddaraf ac mae unrhyw newidiadau ehangach i waith cynllunio cwmnïau dŵr, megis canllawiau, yn cael eu hystyried gennym ni, Llywodraeth Cymru a Grŵp Cyswllt Sychder Cymru.

## Cydymffurfio â thrwyddedau gwastraff

Mae cwmnïau dŵr yn gweithredu amrywiaeth o weithgareddau gwastraff, yn amrywio o drin biowastraff, tirlenwi, hylosgi bio-nwy, llosgi slwtsh, a gorsafoedd trosglwyddo. Ar gyfer gweithgareddau a drwyddedir, rydym yn asesu cydymffurfedd yn erbyn amodau trwydded ac yn sgorio unrhyw ddiffyg cydymffurfio. Fe wnaethom ni gynnal asesiadau cydymffurfio mewn tri safle gwahanol yn 2022. Nodwyd cyfanswm o 16 achos o dorri amodau trwyddedau yn ystod chwe asesiad ar wahân.

Cafodd 10 o'r achosion o ddiffyg cydymffurfio eu disgrifio fel achosion categori 3, a 6 fel achosion categori 4. Er bod y rhain yn gategorïau risg amgylcheddol is, disgwyliwn weld gwelliannau i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

## Gorfodi (uwch na Rhybudd)

O fewn gweithrediadau Dŵr Cymru yn Lloegr, cymerwyd un cam gorfodi yn uwch na Rhybudd yn ystod 2022 - gweithgarwch gorfodi o £50,000 yn gysylltiedig â diffyg cydymffurfio mewn Gwaith Trin Carthion.

Mae nifer o ymchwiliadau agored yng Nghymru ond ni chwblhawyd unrhyw gydymffurfiaeth yn ystod blwyddyn galendr 2022.

## Diogelwch cronfeydd dŵr

Mae Dŵr Cymru yn rheoli 134 o gyforgronfeydd dŵr mawr; ac mae 100 ohonynt wedi'u dynodi'n rhai risg uchel sy'n ddiffiniad cyfreithiol. Mae'r rhain yn gyforgronfeydd dŵr mawr yr ydym yn eu dynodi fel rhai risg uchel oherwydd ein bod yn meddwl y gallai bywyd dynol gael ei beryglu pe bai'r argae'n methu ac yn achosi gollyngiad dŵr heb ei reoli. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein tudalen we Dynodi Risg.

Fe wnaethon ni gofnodi dau ddiffyg cydymffurfio mewn dwy gronfa ddŵr yn ystod 2022. Mae'r tabl cyntaf yn dangos nifer yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a gofnodwyd ar gyfer pob dangosydd.

| | C1 | C2 | C3 | C4 |
|---|---|---|---|---|
| Adeiladwaith | -- | -- | -- | -- |
| Arolygiad | -- | -- | -- | -- |
| Mesurau diogelwch | 1 | 1 | | 1 |

Mae'r tabl isod yn dangos y cydymffurfiaeth, fesul cronfa ddŵr, fel canran o holl gronfeydd dŵr cofrestredig Dŵr Cymru:

| | C1 | C2 | C3 | C4 |
|---|---|---|---|---|
| Adeiladwaith | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Arolygiad | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Mesurau diogelwch | 99.3% | 99.3% | 100% | 99.3% |

Mae cydymffurfiaeth Dŵr Cymru yn uchel iawn, ac yn uwch na'r hyn a fesurir ar draws pob cyforgronfa fawr.

Mae'r diffyg cydymffurfio a gofnodwyd yn Ch1 a Ch2 yn ymwneud â'r un mesur diogelwch yn yr un gronfa ddŵr. Adennillwyd cydymffurfiaeth ym mis Gorffennaf heb ddefnyddio ein pwerau gorfodi.

Nid yw'r diffyg cydymffurfio a gofnodwyd yn Ch4 wedi'i ddatrys hyd yn hyn. Cafwyd oedi ar y dechrau a oedd yn gysylltiedig ag amodau cyflenwad dŵr dros yr haf pan oedd angen defnyddio'r gronfa wasanaeth i sicrhau gwytnwch ar gyfer cyflenwad dŵr i'r cyhoedd. Cawsom gyngor gan y peiriannydd sifil cymwys annibynnol a gadarnhaodd nad oedd risg uniongyrchol i ddiogelwch y gronfa, a bod yr oedi'n cael ei gadw cyn lleied â phosibl ac yn cael ei reoli'n dda. Mae lefel y gronfa wedi'i ostwng ar hyn o bryd a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn hydref 2023.

Ar gyfer pob achos o ddiffyg cydymffurfio, tynnodd Dŵr Cymru ein sylw at oedi cyn y terfynau amser statudol, gostyngwyd a rheolwyd lefelau dŵr ar lefel i sicrhau diogelwch, a gofynnwyd am gyngor gan y peiriannydd sifil annibynnol cymwys.

## Rheoli perygl llifogydd

O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, caiff cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eu diffinio fel awdurdodau rheoli risg. Rhaid iddynt ymddwyn mewn modd sy'n gyson â'r Strategaeth ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru a'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Genedlaethol ar gyfer Lloegr. Mae ganddynt ddyletswydd i gydweithredu ag awdurdodau rheoli risg eraill yng Nghymru a Lloegr.

Bob ychydig flynyddoedd rydym yn cynhyrchu adroddiad i Weinidogion Cymru ynghylch sut mae Strategaeth Genedlaethol FCERM yn cael ei gweithredu ledled Cymru ac rydym yn cynnwys enghreifftiau o arfer gorau drwy ystod o astudiaethau achos a allai gynnwys mentrau cwmni dŵr a charthffosiaeth. Rydym yn gwneud hyn ar ran yr holl awdurdodau rheoli risg sy'n gweithredu yng Nghymru, gan gynnwys felly Dŵr Cymru. Disgwylir yr adroddiad nesaf ym mis Hydref 2023 (dwy flynedd ar ôl cyhoeddi’r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru) a bob dwy flynedd ar ôl hynny. Gweler ein tudalen we Perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru  am ragor o wybodaeth.

# Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2023

## Heriau ar gyfer yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol

Wrth i ni barhau i symud ymlaen drwy gyfnod adrodd pum mlynedd newydd yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2021-25), rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru wneud cynnydd cadarnhaol ar draws pob un o’r saith metrig. Bydd metrigau’r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn parhau i dynhau dros y cyfnod adrodd hwn (2021-25), gan sicrhau bod targedau'n heriol i'r cwmni. Disgwyliwn iddo roi mesurau ar waith i adennill a chynnal statws cwmni uchel wrth i ni symud ymlaen drwy gyfnod adrodd newydd yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2021-25). Yn benodol:

- lleihau cyfanswm y digwyddiadau carthffosiaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn – gan anelu at sero;
- atal yr holl ddigwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth a chyflenwad dŵr) yn y tymor byr;
- gwella cydymffurfedd ansawdd dŵr rhifol – i gyflawni 100%;
- gwrthdroi'r dirywiad mewn hunan-adrodd am ddigwyddiadau llygredd, gan ganolbwyntio’n benodol ar wella hunan-adrodd mewn Gorsafoedd Pwmpio a Gweithfeydd Trin Carthffosiaeth;
- cynnal lefelau perfformiad o ran defnyddio a gwaredu slwtsh yn foddhaol
- cynnal cyfradd gyflawni o 100% ar gyfer Cynllun Rheoli Asedau’r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol;
- cynnal perfformiad ar y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw.

## Heriau ar gyfer perfformiad amgylcheddol ehangach

Fel yr amlinellir yn Rhan 2 o'r adroddiad, mae sawl maes arall o berfformiad amgylcheddol sydd angen eu gwella a chanolbwyntio arnynt, sef:

- parhau i leihau achosion llygredd o asedau cyflenwi dŵr;
- parhau i wella cydymffurfiad cyflwr disgrifiadol (metrig – wrthi’n cael ei ddatblygu);
- gwella cydymffurfiaeth gydag amodau llif;
- lleihau effaith gorlifoedd stormydd drwy gyflawni ei gamau gweithredu yn y cynlluniau gweithredu â’r mapiau trywydd ar gyfer gorlifoedd stormydd;
- lleihau gollyngiadau ar draws y system ddosbarthu dŵr.

# Atodiad 1: Methodoleg

## Y fethodoleg asesu perfformiad a ddefnyddiwyd gennym

Mae adroddiadau ar berfformiad cwmnïau dŵr yn cael eu cynnal bob blwyddyn ar sail blwyddyn galendr.

Ers 2011, rydym wedi defnyddio'r un metrigau a dulliau Asesu Perfformiad Amgylcheddol ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae hyn yn golygu y gallwn adrodd a meincnodi perfformiad Dŵr Cymru'n gyson yn erbyn cwmnïau dŵr a charthffosiaeth mawr eraill yn Lloegr.

Rydym yn cyfuno ein data perfformiad yng Nghymru â data y mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei gyflwyno i ni ar gyfer yr ardal Dŵr Cymru a saif o fewn Lloegr. Mae'r adroddiad hwn felly yn adrodd ar berfformiad Dŵr Cymru yn ei gyfanrwydd.

Mae metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn mesur perfformiad sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- lleihau digwyddiadau llygredd a chynyddu nifer y digwyddiadau a adroddir gan y cwmni;
- cydymffurfio â'r trwyddedau gollwng ar gyfer gweithfeydd trin carthion a dŵr;
- cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n ymwneud â storio, ailgylchu a/neu waredu slwtsh carthion
- cyflawni cynlluniau gwella'r amgylchedd;
- darparu cyflenwadau dŵr diogel (Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw).

Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol wedi'i osod dros gyfnod Cynllun Rheoli Asedau cyfredol y cwmnïau dŵr, sy'n rhedeg o fis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2025. Mae'r metrigau'n absoliwt yn hytrach na'n gymharol. Felly dylai pob cwmni sy'n cael ei fesur yn erbyn metrigau Asesiad Perfformiad Amgylcheddol allu cyflawni statws cwmni pedair seren sy'n arwain y diwydiant.

## Adrodd yn y dyfodol

Rydym wedi bod yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i adolygu metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ar gyfer 2021 ymlaen ac wedi ymgynghori'n allanol (gan gynnwys gyda'r holl gwmnïau dŵr). Rydym wedi mabwysiadu'r un metrigau yng Nghymru â'r rhai yn Lloegr er mwyn ein galluogi i barhau i feincnodi Dŵr Cymru yn erbyn y naw cwmni dŵr a charthffosiaeth mawr arall yn Lloegr, ac rydym yn dilyn yr un fethodoleg "Environment Agency Water and Sewerage Company: Environmental Performance Assessment (EPA) methodology (version 10) for 2021 to 2025". Rydym wedi penderfynu cynnwys 'metrig – wrthi'n cael ei ddatblygu' newydd yn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ar gyfer Dŵr Cymru ers 2020 (gweler tudalennau 9-10) ar gydymffurfio ag amodau disgrifiadol gan fod gennym bryderon yng Nghymru ynglŷn â pherfformiad yn y maes hwn.

# Atodiad 2: Crynodeb o berfformiad 2012-22 Dŵr Cymru yn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2015 E[4] | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)** Digwyddiadau Cat 1-3 fesul 10,000 km o garthffosydd | 110 | 66 | 59 | 59 | 30 | 30 | 28 | 28 | 26 | 21 | 23 | 25 |
| **Digwyddiadau llygredd difrifol (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)** Cyfanswm y digwyddiadau (Cat 1 a 2) | 3.3 | 1.1 | 2.2 | 1 | 0.6 | 0.6 | 0.3 | 0.8 | 0 | 0.3 | 3[5] | 5 |
| **Hunan-gofnodi digwyddiadau llygredd** % | 47 | 48 | 60 | 74 | 74 | 68 | 63 | 75 | 73 | 80 | 76 | 69 |
| **Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr)** % | 98.6 | 97.7 | 97.8 | 98.6 | 97.1 | 99.0 | 96.7 | 98.0 | 98.3 | 99.7 | 98.3 | 98.5 |
| **Defnyddio/gwaredu slwtsh yn foddhaol %** | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | Amherthnasol[6] | N/A[6] | N/A[6] | N/A[6] | 100 |
| **Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol** % y gwaith cyflawni arfaethedig | 116 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 99 | 100 | 100 | 100 | 100 |

[4] Mae'r golofn o dan y pennawd 2015E yn cyfeirio at set ddata 2015, sydd wedi'i hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf ar gyfer Asesiadau Perfformiad Amgylcheddol (2016-2020). Mae hon wedi'i chynnwys at ddibenion cymharu yn unig. Mae'r trothwyon Coch/Oren/Gwyrdd yn cael eu hadolygu bob pum mlynedd.

[5] O dan fetrigau llymach ac ehangach yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yng nghyfnod pum mlynedd newydd yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2021-25), mae'r metrig digwyddiadau llygredd difrifol bellach yn cynnwys digwyddiadau dŵr glân difrifol (o asedau cyflenwad dŵr).

[6] Gwnaethom ohirio adrodd ar y metrig slwtsh ers 2018-2020 wrth inni adolygu sut rydym yn asesu ac yn adrodd ar berfformiad yn gyson ar draws y cwmnïau dŵr ar y gweithgaredd hwn yn y dyfodol. Cafodd y metrig slwtsh ei adfer fel metrig cysgodol ar gyfer blwyddyn adrodd 2021 (2022), ac fel metrig llawn ar gyfer blwyddyn adrodd 2022 (2023).

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw** Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | 100 | 100 | 98 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |
| **Sgôr seren y cwmni** | 3 seren | 3 seren | 3 seren | 3 seren | 3 seren | 3 seren | 2 seren | 3 seren | 3 seren | 4 seren | 3 seren | 2 seren |

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae Dŵr Cymru wedi perfformio yn erbyn y saith metrig ers 2012:

Allwedd: Sgôr seren y cwmni

| | |
|---|---|
| 4 seren | Cwmni sy'n arwain y diwydiant |
| 3 seren | Cwmni da |
| 2 seren | Cwmni sydd angen ei wella |
| 1 seren | Cwmni sy'n perfformio'n wael |